# Digwyddiadau'r Hydref

Efallai mai hwn fydd yr hydref prysuraf erioed yn nhermau digwyddidau i'r IWA gydag wyth cynhadledd neu siaradwr gwadd wedi eu cadarnhau ynghyd ag ambell i syniad arall yn cael eu rafod. Er gwybodaeth dyma'r digwyddiadau sydd wedi eu cadarnhau erbyn dechrau mis Medi ond gobeithiwn gadarnhau manylion yn fuan o Sgwrs  yn Abertawe arall pryd y bydd Peter Stead yn siarad gydag un o enwogion y ddinas o'r byd chwaraeon a seminar ar Yfed Ynfyd, hefyd yn Abertawe – pwnc amserol iawn yng ngoleuni'r newid yn y gyfraith ddaw i rym yn hwyrach eleni fydd yn caniatau rhagor o oriau yfed. Bydd manylion am y digwyddiadau hyn yn cael eeu gosod ar ein gwefan a byddwn hefyd yn e-bostio gwybodaeth i aelodau yn Ngorllewin Cymru. Os hoffech archebu ffoniwch 029 2066 6606 neu ymwelwch a'r wefan.

Dydd Iau 29 Medi 2005 Cynhadledd 9.30-4.30 Coleg Gwent Brynbugau
Economi Guddiedig Cefn Gwlad Cymru £30 gan gynnwys cinio

Dydd Gwener 30 Medi 2005 Cinio 12.00 ar gyfer 12.30 Clwb Park House, Plas y Parc, Caerdydd
Arloesi a Newid Cymdeithasol Geoff Mulgan, cyfarwyddydd Sefydliad Michael Young £30 (£27.50 i aelodau IWA) £250 bwrdd i ddeg.

Dydd Mercher 5 Hydref 2005 Cynhadledd Gwesty'r Thistle Caerdydd
Cymru ar y We £70 gan gynnwys cinio a llyfryn

Dydd Gwener 7 Hydref 2005  Cinio 7.30 ar gyfer 8.00 Canolfan Halliwell, Coleg y Drinod Caerfyrddin
Gorllewin Cymru wedi Amcan Un Adam Price AS £20 (£17.50 i aelodau IWA) £175 bwrdd i ddeg.

Dydd Iau 20 Hydref 2005 Cinio 12.00 ar gyfer 12.30 Clwb Park House Caerdydd
Y WAO Ffactor Jeremy Colman, Archwiliwr Cyffredinol Cymru £30 (£27.50 I aelodau IWA) £250 bwrdd I ddeg.

Dydd Iau 27 Hydref 2005 Digwyddiad Lawnsio 7.00 Theatr Brycheiniog Aberhonddu
Dyfodol Ucheldir Cymru Rhad ac am Ddim

Dydd Gwener 18 Tachwedd 2005 Cynhadledd 10.00-5.00 Sefydliad Coffa Trecelyn
Adfer Ein Gorffennol ar Gyfer y Dyfodol Griff Rhys Jones actor ac ymddiddorwr mewn treftadaeth Cynhadledd a Chinio £30

Dydd Mercher 23 Tachwedd 2005 Cynhadledd 9.30 –4.30 Gwesty'r Thistle Caerdydd
Ariannu Prosiectau Sector Cyhoeddus ar Raddfa Fawr
Cynhadledd a Chinio £90 (£75 I aelodau IWA)

Dydd Gwener 2 Rhagfyr 2005 Cynhadledd 9.30-4.30 Gwesty'r Celt Caernarfon
Dyfodol Llywodraethu Gogledd Cymru
Cynhadledd a Chinio £35

# Adroddiadau Monitro

O'r hydref hwn ymlaen bydd ein hadroddiadau rheolaidd ar y Cynulliad Cenedlaethol ar ffurf ychydig yn wahanol. Daeth ein cytundeb blaenorol gyda'r Uned Gyfansoddiadol yng Ngholeg y Brifysgol Llundain i ben a byddwn yn y dyfodol yn gweithio'n agos gyda'r ymgynghorwyr materion cyhoeddus Grayling I barhau gyda'r gwasanaeth. O hyn ymlaen byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau dair gwaith y flwyddyn er mwyn cyd-redeg gyda thymhorau'r Cynulliad ynhytrach na bob chwarter. Danfonir yr adroddiadau i'r holl aelodau corfforaethol fel rhan o'u hymaelodaeth ac maent ar gael i aelodau unigol am hanner pris (£5) ar gais i swyddfa'r IWA (029 2066 6606). Dyma'r ffordd orau o gael arolwg o'r hyn oll sy'n digwydd yn y Cynulliad. Maent hefyd yn cynnwys

gwybodaeth wertfawr ynglyn a'r berthynas gyda San Steffan a Whitehall, awdurdodau lleol, Ewrop, ar faterion deddfwriaeth cyfansoddiadol a'r pleidiau gwleidyddol. Gobeithiwn hefyd ymgorffori nifer o welliannau fydd yn gwneud yr adroddiadau hyd yn oed yn fwy perthnasol dros y misoedd I ddod. Os hoffech gopi o'r rifyn nesaf rhowch ganiad.

## Eisteddfod 2005

I'r rhai ohonoch a fentrodd y tywydd garw ar ddechrau wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Faenol efallai i chi sylwi ar bresenoldeb llawer ehangach gan yr IWA eleni. Roedd hyn achos Creu Cyfle, y prosiect Ewropeaidd a arweinir gan y Sefydlaid i geisio codi ymwybyddiaeth pobl yng Nghymru o ddeg aelod wlad newydd yr Undeb Ewropeaidd trwy ddigwyddiadau diwylliannol.

Llenwyd yr wythnos gyda digwyddiadau ar y stondin a rannwyd rhwng Creu Cyfle a'r IWA gyda holl bartneriaid y prosiect yn cynnal eu gweithgaredd ei hun. O'r gweithdy a gynhaliwyd gan y delynores ryngwladol Catrin Finch ar y bore Sadwrn cyntaf i'r derbyniad *Blas o'r Ddeg Gwlad Newydd* a noddwyd gan Gyfarwyddiaeth Fwyd Bwrdd Datblygu Cymru ar y nos Wener cyfrannodd yr holl weithgareddau at wythnos lwyddiannus tu hwnt.

Y digwyddiad pwysicaf cyn belled ag oedd y Sefydlaid yn y cwestiwn oedd y Ddarlith Flynyddol a draddodwyd eleni gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn addas ddigon, pwnc ei ddarlith oedd *Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau* ac fe'i dilynwyd gan drafodaeth fywiog ar rai o'r pynciau a godwyd. Bydd copiau o'r ddarlith yn cael eu danfon yn fuan i'r holl aelodau. Diolch hefyd i S4C am noddi'r digwyddiad.

Mae'r partneriaid sydd gennym ar Creu Cyfle – Academi, Canolfan Gerdd William Mathias, Dawns i Bawb, S4C a Chyngor Gwynedd – yn bwrw ymlaen a'u gweithgareddau fel rhan o'r prosiect. Yn y cyfamser yr ydym ni yn ymbaratoi ar gyfer Cynhadledd Ewropeaidd ar y Diwydiannau Creadigol a gynhelir yn mis Chwefror 2006. Bydd ariannu Ewropeaidd wedi 2007 yn cynnig sialensiau newydd i'r oll sy'n ymwneud a'r mater; bydd y gynhadledd yn cynnig gwybodaeth werthfawr am yr ariannu yma yn ogystal â chyngor ynglyn â datblygiad proffesiynol ynglyn a'r ffyrdd gorau o'i fynd o'i chwmpas hi i geisio am yr arian. Bydd rhagor o wybodaeth i ddilyn ond os hoffech ragor o fanylion peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni.

*13/09/05*